

## CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Brithdir  
Nos Fawrth, Mehefin 18, 2019 am 7:30 o'r gloch.

### AGENDA

#### **1. Croeso'r Cadeirydd**

#### **2. Ymddiheuriadau:**

#### **3. Datgan diddordeb.**

#### **4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 21, 2019**

#### **5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 21, 2019**

Eitem 11.b. Llythyrau ateb oddi wrth Priffyrdd ar faterion codwyd gan yr aelodau sef:

1. Gordyfiant ar y ffordd rhwng Garreg Fawr a Bontnewydd h.y. rhwng y Gelli a Phant Ebolion cyn y troad i Ddolgellau. Mae'n creu rhwystr i gerbydau uchel fel bysus.

2. Llythyr (23/5/2019) yn rhoi gwybod bydd angen asesu'r biniau halen a rhoi gwybod os bydd angen eu llenwi cyn y gaeaf.

3. Gordyfiant coed/llwyni ar gyffordd A494 / Ysgol yn rhwystr i welediad clir tuag at y dwyrain

4. Nid yw'r ffens rhwng y maes parcio gyferbyn â'r ysgol a'r afon yn ddiogel.

5. Angen symud bin halen wrth Penrhiw, Rhydymain i riw Hafod Owen, Hermon.

6. Llythyr (25/5/2019) yn rhoi gwybod bydd yr Adran yn asesu'r gwastraff wal Sŵn yr Afon sydd wedi disgyn i'r pafin a chysylltu â'r perchennog i roi gwybod y perig sydd i ddefnyddwyr y ffordd.

7. Llythyr (23/5/2019) yn rhoi gwybod byddent yn gwneud gwaith o agor y gwter sydd wrth fynedfa Tyddynllywarch.

c. Penderfynwyd i'r aelodau cwblhau ffurflen i roi manylion o faterion bydd angen sylw.

#### **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/5/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o 'Model Brococol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol' ar gyfer delio â chwynion lefel isel a dderbynnir o fewn y Cyngor, h.y. materion rhwng aelodau / swyddogion.

Ydym am fabwysiadu'r protocol?

b. Llythyr (25/5/2019) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch yn rhoi gwybod cynhelir rali geir y clwb ar nos Sadwrn 22 / bore Sul 23, Mehefin 2019. Bydd y ceir yn cychwyn o Drawsfynydd am 10.00yh ac yna'n teithio 85 milltir ar hyd ffyrdd Meirionnydd

ch. Llythyr (3/6/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cynhadledd Arfer Arloesol bydd yn cael ei gynnal ar Gorffennaf 10, 2019 yn Maes y Sioe Amaethyddol. Amgáu mae'r Agenda.

d. Llythyr (4/6/2019) oddi Un Llais Cymru. Mae ganddynt 7 modiwl dysgu ar-lein ar gael ar eu gwefan i'w defnyddio gan gynghorydd. Y 7 modiwl yw: Cod Ymddygiad, Y Cyngor yn Gyflogydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Diogelwch, Sesiwn Gynefino, Cyllid Llywodraeth Leol, Deall y Gyfraith. Maent ar gael ar

[http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant\\_ar-lein\\_sylfaenol-16740.aspx](http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant_ar-lein_sylfaenol-16740.aspx)

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (29/5/2019). Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllaw Cynllunio Atodol Drafft ymwneud a CCA 8: Llety Ymwelwyr. Maent yn darparu gwybodaeth bellach i gefnogi polisïau Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiadwyd ar 6/2/2019. Mae'r wybodaeth ar gael yn swyddfa Penrhyndeudraeth, llyfrgelloedd cyhoeddus, wefan <https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidance?name=> Os mae ymatebion maent eu hangen cyn 11/7/2019.

b. Cais cynllunio NP5/54/T139. Adfer nodweddion y tŷ gwreiddiol yn cynnwys tair dormer talcenog, ail godi cyrn mwg, adfer agoriadau ffenestri a gosod ffenestri draddodiadol sy'n codi'n fertigol, drws a ffram bren traddodiadol, ychwanegu ffenestri to ac agoriad ffenestr newydd ar dalcen Gogleddol yn cynnwys gwaith strwythurol mewnol i gynnal ac adfer y llawr cyntaf. Hendre Ffridd Y Mynach, Rhydymain.

## **8. Materion Ariannol**

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai, 2019: £1,138.94.

b. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2019: £4,008.50.

## **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

## **10. Unrhyw fater arall**

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc

## Eitem unrhyw fater arall

### Materion i'w codi yn y Cyfarfod gan y Cynghorwyr

**Problem:**

**Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:**

**Lleoliad y broblem:**

-----

**Problem:**

**Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:**

**Lleoliad y broblem:**

-----